Rhagluniaeth fawr y nef

Caneuon Ffydd: Rhif 114

Rhagluniaeth fawr y nef,
mor rhyfedd yw
esboniad helaeth hon
o arfaeth Duw:
mae'n gwylio llwch y llawr,
mae'n trefnu lluoedd nef,
cyflawna'r cwbwl oll
o'i gyngor ef.

Llywodraeth faith y byd
sydd yn ei llaw,
mae'n tynnu yma i lawr,
yn codi draw:
trwy bob helyntoedd blin,
terfysgoedd o bob rhyw,
dyrchafu'n gyson mae
deyrnas ein Duw.

Ei th'wyllwch dudew sydd
yn olau gwir,
ei dryswch mwyaf, mae
yn drefen glir;
hi ddaw â'i throeon maith
yn fuan oll i ben,
bydd synnu wrth gofio'r rhain
tu draw i'r llen.

DAVID CHARLES, 1762–1834

MYFYRDOD

Fel meddyliwr a diwinydd ac un oedd hefyd yn weinyddwr medrus y meddylir am David Charles, ond fel pob diwinydd praff y mae'n ddigon bodlon addef nad oes modd i ni ateb llawer o'r cwestiynau sydd gennym ynglŷn â phethau yn y byd hwn. Synnai llawer a'u cael eu hunain yn addoli Duw wrth wrando arno'n annerch yn gyfareddol ar bynciau o athrawiaeth neu'n rhannu ei brofiad ei hun o iachawdwriaeth yng Nghrist. Ond gwyddai mai 'llwch y llawr' ydoedd ac nad oes dichon ceisio esboniad yn aml ar ein hamgylchiadau, ac y mae, er ei allu, yn ei ymddiried ei hun i benarglwyddiaeth Duw ac i 'esboniad helaeth hon o arfaeth Duw', gan addef mai 'rhyfedd yw' 'rhagluniaeth fawr y nef'. Rhan yn unig o'r darlun a welwn ni yma ar y ddaear, neu fel y dywedodd Paul: 'Yn awr, gweld mewn drych yr ydym, a hynny'n aneglur; ond yna … Yn awr, anghyflawn yw fy ngwybod; ond yna …' (1 Cor.

13:12). Aneglur yw ein golwg ac amherffaith yw ein gwybodaeth yr ochr yma i'r llen ond, fel Paul wrth rybuddio'r bobl yn Effesus i wisgo holl arfogaeth Duw amdanyn nhw, oherwydd 'nid â meidrolion yr ydym yn yr afael, ond â thywysogaethau ac awdurdodau' (Eff. 6:12), felly hefyd mae David Charles yn ein hatgoffa bod Duw yn 'gwylio llwch y llawr', ac yn 'trefnu lluoedd nef'; hyd yn oed yr hyn na welwn ni, er mwyn cyflawni ei amcanion.

Roedd David Charles yn ddyn llwyddiannus ym mhethau'r byd hwn. Dywedwyd amdano ei fod yn un o 'aristocracy' Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd. Ceir traddodiad mai ar ôl i'w ffatri gwneud rhaffau yng Nghaerfyrddin losgi i'r llawr ar ryw Sadwrn ym 1812, ac ar ôl treulio'r Sul canlynol yn pregethu ac yn ymddiddan drwy'r dydd yn Nhalyllychau fel pe na bai dim oll wedi digwydd i effeithio dim arno y diwrnod cynt, y cyfansoddodd yr emyn hwn. Byddai hynny'n rhoi golwg fyw inni ar y 'tynnu yma i lawr, yn codi draw'. Ond nid hyd 1817 yr ymddangosodd yr emyn mewn print, a hynny wrth i David Charles geisio crynhoi trafodaethau'r Methodistiaid yn eu Sasiwn yn y Bont-faen ynglŷn â'r sefyllfa wleidyddol a chymdeithasol fregus yr oedd y wlad ynddi ar y pryd yn dilyn rhyfeloedd Napoleon ar y Cyfandir. Gwelai'r Methodistiaid yr argyfwng yng ngoleuni rhagluniaeth Duw a gobeithient y deuai tro ar fyd, gan weithio a gweddïo er mwyn gweld hynny. Nid Duw pell yw Duw David Charles a'r Methodistiaid hyn, ond un sydd yn llywodraethu 'trwy bob helyntoedd blin' a 'therfysgoedd o bob rhyw', a 'daw ei throeon maith yn fuan oll i ben'.

Dywedodd rhywun fod bywyd yn debyg i wylio tapestri mawr yn cael ei bwytho, ond ein bod yn edrych arno o'r cefn, sef o'r ochr anghywir lle mae'r llinynnau blith draphlith ar draws ei gilydd, ond y cawn ei weld o'r ochr iawn ddydd a ddaw a synnu at ei grefftwaith: 'bydd synnu wrth gofio'r rhain tu draw i'r llen'.

GWEDDI

O Dad nerthol, diolchwn iti fod llywodraeth faith y byd yn llaw dy ragluniaeth ryfedd di dy hun, a bod holl lywodraethwyr y byd yn ddarostyngedig i ti wrth iti ddyrchafu a helaethu dy deyrnas. Edrychwn ymlaen, Arglwydd, at y dydd y cawn ni weld pethau'n eglur ac yn berffaith yng nghwmni dy Fab yn Nheyrnas Nefoedd. Er mwyn ei enw ef. Amen.